

**Cyngor Cymuned Llanllyfni**  
**Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 13eg o Hydref 2015.**

1. **Presennol:** OP Huws (Cadair), Gwyndaf Roberts - Llanllyfi; Harry Wyn Owen, Dafydd Glyn Owen - Talysarn; Ffion Jones - Nantlle; Barry Bracegirdle, Iwan Lloyd Williams, Justin Davies - Penygroes; Craig ab Iago - Cynghorydd Sir; Ben Gregory (eitem 3) / **Ymddiheuriadau:** Dyfed Edwards (cynghorydd Sir), Nerys Williams - Penygroes; Heina Roberts - Llanllyfni; Sharon Wynne Jones - Talysarn.
2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Gwyndaf Roberts.
3. **Aelod o Grwp 2020** - diweddariad am Siop Griffiths. Cyflwyniad gan Ben Gregory. Hysbyswyd y Cyngor fod angen codi swm o arian erbyn Rhagfyr y 1af er mwyn prynu'r adeilad. Taflenni wedi eu dosbarthu o gwmpas. Yn y broses o newid cyfansoddiad y Grwp if od yn gydweithfa er budd cymunedol. Y Cyngor yn datgan ein bod yn gefnogol o'u prosiect, a gofynwyd i Ben ein hysbysu pan fo mwy o newyddion i'w rannu.
4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Medi.** Gwyndaf Roberts yn datgan cywirdeb ac OP Huws yn eillio.
5. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Cyngor Gwynedd Toriadau Posib - pecynnau ar y we, ac yn y canolfannau hamdden - rhestr gynhwysfawr llawn gwybodaeth. Dyfed Edwards wedi cyfleu neges i'r Cyngor fod Grwp Cynefin yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o wneud rhywbeth efo adeilad y Fic ym Mhenygroes, ond yn addo dim; Dim datblygiad pellach efo cais cynllunio'r Parc Solar; Goleuadau beics - Julie Holland am siarad efo Swyddog yng Nghaernarfon ynglyn a'r goleuadau beics **penderfynwyd** gweithredu'r cynllun er cof am Elwyn, Les ac Ifan. Y Cyngor i dalu am y goleuadau gyda'r gobaith o gael cyfraniad wedyn gan yr Heddlu.
6. **Sedd wag Penygroes.** Cyflwynwyd dau enw ger bron y Cyngor - pleidlais gudd. Mark Ballam gyda'r mwyafrif - cyfetholwyd fel aelod newydd dros Benygroes. Y Clerc i gysylltu i'w hysbysu.
7. **Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod is-bwyllgor** (pwyllgor mynwentydd). Cynnal a chadw - chwistrellu chwyn wedi ei wneud. Cytunwyd a chadarnhawyd pris i glirio gweddill y chwyn. Y contractwyr i ebostio'r Clerc i gadarnhau prisiau yn y dyfodol. **Cytunwyd** gofyn am bris crafu'r rhan graean a hadu Gorphwysfa. **Penderfynwyd** y byddai angen rhaglen chwistrellu ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'r gwaith i'w roi ar dendr i chwistrellu dair gwaith y flwyddyn. Addaswyd rhan 1 o raglen tendr MacPelah i gynnwys lefelu tir a gosod ffens gwningod, a gofynwyd i'r Clerc yrru'r manylion i'r contractwyr a oedd wedi ymateb i'r tendr. **Penderfynwyd penderfynu ar y tendr llwyddiannus yng nghyfarfod Tachwedd** - dau bris wedi eu derbyn. Gorlifant wedi ei ddarganfod yn dod o dir y ffermwr i gae y Cyngor ger MacPelah - gofynwyd i'r Clerc yrru llythyr at y perchennog i'w hysgysu, a gofyn wrtho archwilio ac adfer y broblem. Cwynion ym Mhenygroes am ffens wedi ei chodi o amgylch tir ysgol Dyffryn Nantlle, ac yn torri ar draws llwybr sydd wedi ei defnyddio fel ffordd ddiogel i'r ysgolion yn y pentref. Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Pennaeth gan fod pryder bod hyn wedi codi perygl yn enwedig i'r plant cynradd.
8. **Cynllunio** C15/0956/22/LL - Tyddyn Llwydcoed, Llanllyfni - estyniad - caniatâu; C15/0969/22/LL - Pant Du, Penygroes - paneli solar to - caniatâu; C15/1020/22/LL - Chwarel Ty Mawr West - sefydlu ystorfa dros dro i gadw priddoedd anadweithiol sydd i'w hadennill er lles defnydd adfer ar gyfer y dyfodol - dim cynllun lleoliad (DGOam edrych ar y we); C15/0891/22/LL - Ty Mawr, Nantlle - codi sied amaethyddol ar gyfer storio offer a pheiriannau, gwair a bwyd anifeiliaid - caniatâu.  
**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref.** Caniatâu cynllun trydan dwr Gelli Ffrydiau, Nantlle; Caniatâu adeiladu estyniad cefn 5 Rhes Fictoria, Nantlle..
9. **Gohebiaeth.**  
**Cyngor Gwynedd**  
\*Patrolau/biniau/taflenni baw cwn - Justin a'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad a Peter Simpson. Cyngor Gwynedd wedi addo patrolau ychwanegol i ardal Penygroes. Angen gofyn os fydd y patrolau yma yn gallu cynnwys pentrefi eraill y dyffryn. Holi beth sydd wedi digwydd efo'r cais i symud y bin a osodwyd wrth y cae chwarae yn Nantlle.  
\*Chwarel Greenarfon, Nebo - gweithgareddau diweddar. Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau fod yr rhain o fewn caniatad cynllunio.  
\*Coed St Rhedyw - ymateb Cyngor Gwynedd. Doedd y coed ddim yn rhan o'r cais cynllunio nac ychwaith wedi eu gwarchod gan TPO.

- \*Japanese Knotweed. Cyngor Gwynedd wedi archwilio - angen gyrru copi o'r ymateb i'r contractwyr torri llwybrau fel nad yw'r planhigyn yn ymledu ymhellach. Hysbysu Angharad Tomos o ymateb y Cyngor .
- \*Cofnod cwyn coed cefn Trem yr Wyddfa. - torri'r coed sy'n creu niwsans i'r tai cyfagos yw'r cam cyntaf - gofyn i Gyngor Gwynedd ymgymeryd a'r gwaith ar fyrder.
- \*Rhes Eifion, Talysarn - cyflwr y trac - aros am ymateb llawn gan Gyngor Gwynedd a hysbysu Sharon.
- \*Dogfen ymgynghori toriadau Cyngor Gwynedd (dogfen ar ebost). Dogfen gynhwysfawr.
- \*Fforwm Mynediad - toriadau arfaethedig i'r Uned Cefn Gwlad a Mynediad. Er gwybodaeth.

### **Arall**

- \*Swyddfa Archwilio Cymru - Trefniadau archwilio allanol 2015 i 2019. Cadw'r wybodaeth ar ffeil gan fod trefniadau yn newid.
- \*Clerks and Councils Direct. Ar y bwrdd.
- \*'Noson Allan' Er gwybodaeth.
- \*Noson Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chynghorau Tref a Chymuned.
- \*Y Fic, Penygroes - ebost Alun Ffred Jones. **Penderfynwyd** cysylltu efo Alun Ffred i ofyn wrtho gynnig dyddiadau ar gyfer ymgynnull swyddogion at ei gilydd a chynnal cyfarfod arbennig. Wedi derbyn ymateb Alun Ffred, cysylltu efo Dyfed Edwards i drefu.
- \*Cae Efa Lwyd - ebost Stuart Lawrence - ymddiheuriad nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heno. **Penderfynwyd** cysylltu a chynnig iddo ddod i gyfarfod Tachwedd, neu drefnu cyfarfod arbennig pan fydd yr wybodaeth i gyd ganddo i law. Pryder am effaith swm a llwch ac yn y blaen i drigolion Ffordd Clynnog.
- \*Ymgynghoriad ar newidiadau i'r polisiau a chanllawiau cynllunio manwerthu cenedlaethol. Er gwybodaeth.
- \*Rhannu Pwrpas - drafftio canllawiau ar gyfer deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol Cymru. Dogfen er gwybodaeth.
- \*Cyngh. Craig ab Iago - arwyddion i Llanllyfni. Hyn yn berthnasol i'r cais i efeillio Llanllyfni gyda Dolafon, Patagonia. Cais am arian i dalu am arwyddion i'r pentref. Cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu at y 27ain o Hydref. Teimlai'r Cyngor fod yr arwyddion yn gostus, a'r dyluniad ychydig bach yn ddrwslyd. Awgrymwyd aros i weld beth fydd ymateb trigolion yn pentref cyn prynu arwyddion. **Penderfynwyd** y byddai'r Cyngor Cymuned yn cysidro'r cas os oes cefnogaeth yn y pentref, yn dilyn o'r broses o gyfarfod cyhoeddus, cydweithrediad yr ysgol, ac edrych i mewn i'r prisiau.
- \*Cyngh. Craig ab Iago - dug-out CPD Llanllyfni. Y CPD wedi cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Gwynedd.
- 10. **Gwefan.** Bwriadu cynnal cyfarfod efo Alun Ffred Jones ynghylch y Fic. Awyddus cyfarfod efo'r cwmni chwarel Cae Efa Lwyd. Pryder ynglyn a phlant yn chwarae yn beryglus yn Cwntin.
- 11. **Goleuadau Nadolig.** Justin am wneud ymholiadau lleol - y Clerc wedi methu cael ymateb gadarnhaol gan Scottish Power. Goleuadau Nadolig newydd y Cyngor ar eu ffordd - fod wedi cyrraedd heddiw, ond heb ddod. Ffion y cynnig iddynt gael eu gyrru i'r Ganolfan Hamdden.
- 12. **Goleuadau Beics.** (Gweler eitem 5).
- 13. **Materion Pentrefi.** Nantlle Arwydd at y tai Cyngor yn uniaith Saesneg Gofyn i Gyngor Gwynedd dynnu'r gair 'numbers' oddi ar yr arwydd - sticer wedi ei roi drosto yn y gorffennol wedi ei dynnu. Penygroes Pryder am ddiogelwch plant yn neidio dros y ffens wrth Cwting a rhedeg i lawr i'r lon fawr. Tynnu sylw'r heddlu; Gofyn i'r Cyngor newid diwrnod y glanhawr stryd sydd yn dod i Trem yr Wyddfa o ddydd Gwener i ddydd Llun. Llanast yn cael ei adael ar ol y lori ailgylchu. Cwyn fod Mor Awel heb gael ei lanhau ers tua blwyddyn; Chwyn a phlanhigion Stryd yr Wyddfa yn parhau heb gael sylw, er i ni dderbyn cadarnhad yn yr haf fod y gwaith tacluso yn mynd i gael ei wneud; Gwaith clwtio yn Trem yr Wyddfa yn parhau i fod yn ofnadwy; Ffair Nadolig Penygroes 28.11.15 - gofynwyd am rodd tuag at y goeden Nadolig - **penderfynwyd cyfrannu coeden Nadolig.** AGENDA MIS NESAF - Tram Road, Penygroes.
- 14. **Llwybrau a Mynwentydd.** Tendr MacPelah; chwyn. Twll yn mynwent Llanllyfni wedi ei lenwi. Llwybr o dan y gasworks (o Bro Silyn i lawr gyda'r afon am Penygroes) angen ei asesu - rhan ohoni wedi disgyn, a phryder ei bod yn beryglus. Copi o gytundeb pori drafft wedi ei dderbyn gan y Cyfreithiwr - gofyn am gopi Cymraeg; Angen tynnu'r bin o Gorphwysfa - arwyddion wedi eu rhoi i fyny i beidio a gadael ysbwriel; Gardd fach ar fedd yn Gorphwysfa - Gwyndaf ac OP am fynd i'r fynwent i edrych, a gofynwyd i'r Clerc yrru llythyr i'r teulu ar benderfyniad y Cadeirydd; Llwybr Nebo heibio Bryn Teg - y steps concriid wedi eu gorchuddio efo gwair. I lawr at y lon bost, trwy'r giat mochyn- does dim posibilrwyd mynd at y lon - Cyngor Gwynedd wedi addo gwell adwy at Lon Eifion, ond heb wneud eto -holi.
- 15. **Materion yn ymwed a'r heddlu.**

16. **Materion ariannol.** Ffon/Rhynggrwyd Clerc £25; Derbynebaw Clerc; Designer Signs £78.00 -  
derbyn.

**\*Taenlen i'w chymeradwyo** - cymeradwyo; **\*Ceisiadau am Arian** - Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni;  
Eisteddfod Gadeiriol Llangollen. Trafod Chwefrof.